MEMORANDWM ESBONIADOL AC ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Memorandwm Esboniadol am Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2007

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i cyflwynir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(i) **Disgrifiad**

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006, sy'n darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru, yn eithrio eiddo hunan-ddarpar penodol (heb gynnwys carafanau) rhag cael rhyddhad o dan y cynllun. Mae'r diwygiad hwn i'r Gorchymyn yn dileu'r eithriad hwn, ac yn gwneud yr eiddo hwnnw yn gymwys i gael rhyddhad ar yr un sail â busnesau eraill, ac mae'n ôl-ddyddio unrhyw hawl i 1 Ebrill 2007.

(ii) **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

Er bod gwneud deddfwriaeth ôl-weithredol yn anarferol, mae'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol o'r farn bod y ffaith bod y diwygiad o fudd yn hytrach nag yn faich yn ddigon o gyfiawnhad i Lywodraeth y Cynulliad wneud deddfwriaeth ac iddi effaith ôl-weithredol. Mae'r Cynghorydd Cyfreithiol i'r Gwasanaeth Seneddol gynt yn cytuno â'r cyngor hwn ac er y byddai'n rhaid cyflwyno adroddiad ffurfiol am yr effaith ôl-weithredol, dywedodd na fydd unrhyw sylwadau gwrthwynebus yn cael eu gwneud.

(iii) **Y Cefndir Deddfwriaethol**

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyflwyno ac i ddiwygio'r Cynllun Ardrethi Busnesau bach o dan adrannau 43(4B)(b), 44(9) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

(iv) **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae darparu cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru yn rhan hanfodol o bolisi cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad, a hynny, yn anad dim, er mwyn sicrhau bod busnesau mewn cymunedau difreintiedig yn rhai cynaliadwy. Mae'r sector hunan-ddarpar yn rhan annatod o'r diwydiant twristiaeth ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi - yn enwedig mewn rhannau gwledig o'r wlad, a dylai gael ei drin yn yr un ffordd â busnesau bach eraill yng Nghymru at ddibenion rhyddhad ardrethi.

Disodlwyd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Gwledig gan y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Mae'n darparu

- rhyddhad o 50 y cant i fusnesau ac iddynt werth ardrethol o £2,000 neu lai;

- rhyddhad o 25 y cant i fusnesau ac iddynt werth ardrethol rhwng £2,001 a £5,000;

- rhyddhad o 100 y cant i swyddfeydd post (a heraditamentau sy'n cynnwys swyddfeydd post) ac iddynt werth ardrethol o £9,000 neu lai; a

- rhyddhad o 50 y cant i swyddfeydd post (a heraditamentau sy'n cynnwys swyddfeydd post) ac iddynt werth ardrethol rhwng £9,001 a £12,000.

Effaith y diwygiad hwn i'r Gorchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach fydd gwneud pob busnes hunan-ddarpar yn gymwys i gael rhyddhad ar yr un sail â busnesau eraill, ac ôl-ddyddio'r hawl hwn i 1 Ebrill 2007.

(v) **Gweithredu**

Dylid gwneud y ddeddfwriaeth hon cyn gynted ag y bo modd am ei bod yn cael ei chymhwyso'n ôl-weithredol o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Bydd talwyr ardrethi a fydd â'r hawl i ryddhad o ganlyniad i'r diwygiad hwn yn parhau i dalu'r ardreth fusnes safonol ac ni fyddant yn cael unrhyw ad-daliadau nes i'r ddeddfwriaeth hon ddod i rym.

(vi) **Ymgynghori**

Ar ôl i sylwadau ddod i law ynghylch eithrio'r dosbarth hwn o fusnes o'r cynllun, aeth Llywodraeth y Cynulliad ati i ymgynghori ynghylch effaith eithrio'r sector busnes penodol hwn rhag cael rhyddhad. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Mawrth a 27 Ebrill 2007.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol -

(a) **Y Dewisiadau (er mwyn cyflawni'r amcan polisi – fel y'i hamlinellir ym mharagraff (iv) uchod**) -

Yr unig ddewis arall oedd peidio â newid y cynllun, ond o wneud hynny, ni fyddai'r busnesau'n cael y manteision a ddisgrifir ym mharagraff (b) isod.

(b) **Y Manteision**

Effaith y diwygiad hwn i'r Gorchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach fydd gwneud busnesau hunan-ddarpar, gan ddibynnu ar eu gwerth ardrethol, yn gymwys i gael rhyddhad ar yr un sail â busnesau eraill, ac ôl-ddyddio'r hawl hwn i 1 Ebrill 2007.

Ar sail data a ddarparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, amcangyfrifir y bydd y cynllun bellach o fudd i 2,870 o fusnesau.

(c) Y Costau

Bwriadwyd i'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, fel y'i gweithredwyd yn wreiddiol, fod fwy neu lai o fewn cwmpas costau'r cynllun rhyddhad ardrethi gwledig a ddisodlwyd ganddo - sef oddeutu £17 miliwn yn llai o incwm o ardrethi annomestig. Er hynny, wrth baratoi amcangyfrif o gostau'r cynllun, nid oedd rhai o'r ffactorau'n hysbys. Yn bennaf, nid oeddem yn gwybod faint o fusnesau bach a fyddai'n anghymwys i gael rhyddhad busnesau bach ac nid oeddem yn gwybod sut y byddai'r awdurdodau lleol yn defnyddio eu pwerau disgresiwn i roi rhyddhad caledi (y mae 75% ohono yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad) i helpu busnesau a ddioddefodd galedi am fod y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig wedi dod i ben.

Mae'r amcangyfrifon a ddaeth i law oddi wrth yr awdurdodau lleol yn dangos y bydd y cynllun yn costio oddeutu £14 miliwn y flwyddyn ariannol hon. Ymddengys mai ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r pwerau disgresiwn.

Amcangyfrifir y bydd rhoi rhyddhad i bob busnes hunan-ddarpar eleni, gan ôl-ddyddio'r rhyddhad i 1 Ebrill 2007, yn costio oddeutu £1.7 miliwn ar sail ystadegau a baratowyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar 31 Mawrth 2007, felly, dylai cost y cynllun fel y'i diwygiwyd barhau i fod o fewn y cwmpas costau o £17 miliwn.

Ni ddylai arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdodau lleol, a bydd modd iddynt ddiwygio'r biliau ardrethi yr effeithir arnynt gan ddefnyddio'r adnoddau gweinyddol sydd ganddynt eisoes.

(ch) **Asesiad o'r Gystadleuaeth**

Sgoriwyd y cynnig hwn gan ddefnyddio'r hidl cystadleuaeth, a gwelwyd na ddylai gael effaith andwyol ar gystadleuaeth.

(d) **Ymgynghori**

Daeth dros 80 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad oddi wrth awdurdodau lleol ac oddi wrth sefydliadau ac unigolion eraill yn y diwydiant hunan-ddarpar. Roedd yr ymatebion yn bendant o blaid cynnwys eiddo hunan-ddarpar yn y Cynllun.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gyfrwng datganiad a wnaed yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 12 Mehefin 2007 y bydd y Gorchymyn yn cael ei newid er mwyn caniatáu i bob busnes hunan-ddarpar, gan ddibynnu ar eu gwerth ardrethol, fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi annomestig ar yr un sail â busnesau eraill, ac y bydd y rhyddhad hwn yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2007.

(f) Adolygiad ar ôl Gweithredu

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd ati bob blwyddyn i adolygu sut y mae'r cynllun yn cael ei weithredu ac i adolygu faint

mae'n ei gostio. Bydd yn cymharu ffurflenni archwiliedig yr awdurdodau lleol o swm y rhyddhad y maent wedi ei roi erbyn mis Hydref â'r amcangyfrifon gwreiddiol.

Caiff y modd y mae'r cynllun yn cael ei weithredu ei drafod mewn cyfarfodydd o'r Gweithgor Trethi Lleol, lle y bydd swyddogion yr awdurdodau lleol a'r Cynulliad yn bresennol.